**CCYSAGauC**
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru

**WASACRE**
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

**Cyfarfod Cymdeithas CYSAG au Cymru,**
**yn Oriel Ynys Môn, Rhosmeirch, Ynys Môn, LL77 7TQ**
**Dydd Gwener, 6 Gorffennaf 2018**
**(10.30 – 12.30 / *2.30 – 3.00p.m.)*)**

***Wales Association of SACREs meeting, at the Oriel, Llangefni, Rhosmeirch, Anglesey, LL77 7TQ***
***Friday, 6 July 2018***
***(10.30 – 12.30 / 2.30 – 3.00p.m.)***

**Yn bresennol**

**Ynys Môn / *Anglesey***
Chris Thomas
Gwilym Jones
Euros Wyn Jones
Dylan Rees
Rheinallt Thomas

**Blaenau Gwent**
Paula Webber (PW)

**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***
Edward J. Evans (EE)
Vicky Thomas (VT)
Philip Manghan (PM)

**Caerffili/ *Caerphilly***
Vicky Thomas (VT)

**Caerdydd / *Cardiff***
Gill Vaisey (GV)

**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***
Mary Parry (MP)

**Ceredigion**
Lyndon Lloyd MBE (LL)

**Conwy**
Nicholas Richter
Roger Boon
Ifor G Efans

**Sir Ddinbych / *Denbighshire***

**Sir y Fflint / *Flintshire***
Rosalind Williams

**Gwynedd**

**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***
Paula Webber (PW)
Mark Prevett (MkP)

**Sir Fynwy / *Monmouthshire***
**Sir**
Louise Brown (LB)

**Castell-nedd Port Talbot /*Neath and Port Talbot***

**Casnewydd / *Newport***
Vicky Thomas (VT)
Sally Northcott (SN)

**Sir Benfro / *Pembrokeshire***
Huw M George (HG)
Mary Parry (MP)

**Powys**
John Mitson (JM)

**Rhondda Cynon Taf**
Paula Webber (PW)
Mathew Maidment (MM)

**Abertawe / *Swansea***
Vicky Thomas (VT)

**Torfaen**
Paula Webber (PW)

**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***
Paula Webber (PW)
Dafydd Trehearn (DT)

**Wrecsam / *Wrexham***
Libby Jones (LJ)

**Sylwedyddion / *Observers***
Rudolf Elliot Lockhart, REC
Michelle Gosney, Estyn
Tudor Thomas, MAGC

**Cyflwynwyr/*Presenters***
Manon Jones (MJ)
Liz Counsel
Linda Rudge

**Cofnodion y cyfarfod**

## 1. Cyflwyniad a chroeso

Cyn y cyfarfod, mwynhaodd yr aelodau berfformiad gan gôr o ddisgyblion Ysgol y Graig.

Croesawyd yr aelodau i Ynys Môn ac yn arbennig i Oriel Môn, gan Dylan Rees, Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2018/19 a Chadeirydd CYSAG Ynys Môn.

Cyfeiriodd at yr adegau heriol sy'n ein hwynebau ar hyn o bryd gyda'r cwricwlwm newydd, ond yn lleol yn arbennig gyda cholli swyddog cefnogi CYSAG Ynys Môn, Gareth Jones, a cholli cefnogaeth ac arbenigedd amhrisiadwy Bethan James, y cynghorydd herio, a oedd newydd gael ei thynnu oddi ar y CYSAG gan y consortiwm. Mynegwyd diolch twymgalon i Bethan am y gwaith ardderchog a wnaeth hi yn darparu'r hyn a alwyd yn wasanaeth 'Rolls Royce'. Roedd cael ei thynnu'n sydyn o bwyllgor CYSAG wedi gadael CYSAG Ynys Môn yn ansicr ynghylch sut i symud ymlaen.

Siaradodd DR am bwysigrwydd heddwch rhwng y cenhedloedd, sy'n deillio o unigolion yn cael heddwch rhwng ei gilydd a heddwch yn eu calonnau. Awgrymodd fod Addysg Grefyddol dda yn helpu i gynhyrchu agweddau heddychlon yng nghalonnau disgyblion.

Diolchodd EE i DR am ei groeso cynnes a'i fyfyrdodau.

Nododd EE fod Phil Lord hefyd wedi cael ei dynnu o'i swydd fel swyddog proffesiynol i GYSAGau a bod Vicky Thomas yn y de yn ymddeol.

Diolchwyd o waelod calon i'r tri hyn am y cyfan y maent wedi ei wneud dros flynyddoedd maith o wasanaeth.

Gofynnodd aelod o Ynys Môn am roi eitem ar yr agenda am ddiffyg darparu ymgynghorwyr proffesiynol i GYSGAau. Dywedodd GV fod CCYSAGauC eisoes wedi ysgrifennu at holl gyfarwyddwyr Awdurdodau Lleol a chlercod CYSAGau am y mater hwn ac adroddodd EE fod sawl ymateb wedi'u derbyn yn barod. Nodwyd y bydd Paula Webber yn cymryd swydd lawn amser gyda chonsortiwm GCA sydd wedi dangos ymrwymiad i roi cefnogaeth broffesiynol i bob CYSAG o fewn y consortiwm hwnnw. Ym marn LB, dylai pob ALl fod yn gyfrifol am benodi eu hymgynghorydd eu hunain i'r CYSAG.

## 2. Myfyrdod tawel

Siaradodd EE am deimladau o fod yn hunan-bwysig a bod pob yn teimlo'u bod yn anhepgor pan nad yw hyn yn wir mewn gwirionedd.

## 3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Tania ap Siôn, Sue Cave, Lynda Maddock, Helen Gibbon, Meinir Loader, Alison Lewis, Christine Abbas, Rachel Samuel, Andrew Pearce, Huw James, John Taylor, Alwen Roberts, Kathy Riddick, Huw Stephens a Marilyn Frazer.

## 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Abertawe ddydd Gwener, 9 Mawrth 2018

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod ar wahân i wall teipio o dan bresenoldeb Caerffili a ddylai ddarllen Eryl Williams.

## 5. Materion yn codi

Derbyniwyd gohebiaeth gan Kirsty Williams mewn ymateb i'r llythyr a ysgrifennwyd gan CCYSAGauC yn gofyn am fwy o eglurder ar sefyllfa cynrychiolaeth y Dyneiddwyr ar Bwyllgor A CYSAG. Darllenodd EE yr ymateb sy'n cadarnhau safbwynt y Gweinidog mewn cysylltiad â'r mater hwn. Mae CYSAGau eisoes wedi cael copïau o'r llythyr i'w sylw, ac mae EE wedi diolch i KW am ei hymateb.

Roedd EE wedi cymryd y cyfle hefyd i gyfeirio KW at ddogfen CoRE yn Lloegr i gefnogi ei hadolygiad o 10/94.

Roedd CYSAG Sir Gaerfyrddin yn dymuno codi'r mater o ohebiaeth i GYSAGau sy'n dod yn uniaith Saesneg gan mwyaf pan mae ar ffurf e-bost. Nodwyd y dylai gohebiaeth fod yn ddwyieithog bob amser, yn unol â'r cyfansoddiad. **Cytunodd EE fod angen sicrhau fod pob e-bost yn cael ei gyfieithu cyn cael ei anfon.**

Mynegodd yr aelodau eu pryderon am y diffyg cefnogaeth i ddarparu AG mewn Datblygu Proffesiynol Parhaus, y TGAU presennol nad yw'n gyfrwng addas ar gyfer AG orfodol, y diffyg cefnogaeth broffesiynol i rai CYSAGau, a diffyg cyllid digonol i GYSAGau.

Awgrymodd VT y byddai ail-sefydlu'r cyfarfod blynyddol â'r gweinidog o gymorth fel cyfrwng i godi'r pryderon oedd gan yr aelodau. Nodwyd y bydd y gweinidog yn gofyn am dystiolaeth i ategu unrhyw geisiadau neu bryderon. Byddai'n bwysig cael cynrychiolwyr o blith athrawon yn y cyfarfod hwn. **Cytunwyd i gyfeirio'r mater hwn at y Pwyllgor Gwaith i'w ystyried.**

Nodwyd nad oedd cynrychiolydd o CBAC yn mynychu cyfarfodydd PYCAG na CCYSAGauC a bod hyn yn golled. **Cytunodd LJ i siarad â Lynda Maddock am y mater hwn.**

## 6. Marc Ansawdd Addysg Grefyddol (REQM): Linda Rudge

Amlinellodd Linda y Marc Ansawdd AG ac esboniodd iddo gael ei ddatblygu mewn partneriaeth â chydweithwyr yng Nghymru yn 2014 - 2015. Awduron gwreiddiol yr REQM oedd Mary Myatt a Jane Brooke. Mae yna fersiwn i Gymru sydd wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg.

Proses achredu yw'r REQM sydd yn cydnabod ac yn dathlu arfer da mewn ysgolion. Ar hyn o bryd mae'r REQM yn cael ei adolygu a chydnabyddir fod angen gweithio'n agos gyda CYSAGauC ar hwn drwy gydol y broses.

Lansiwyd Marc Ansawdd SMSC ym mis Medi 2017 a gall rhai weld hwn fel bygythiad i'r REQM. Fodd bynnag, yn wahanol i rai Marciau Ansawdd eraill, mae'r holl ddeunyddiau ar gyfer yr REQM fel y meini prawf ar gael i bawb, p'un ai bod ysgol yn bwriadu cael eu hasesu ai peidio.

Mae asesydd yn ymweld â'r ysgol i gadarnhau eu dyfarniad o Efydd, Arian neu Aur. Cyfeiriodd Linda at hyn fel proses 'cyffyrddiad ysgafn' gan mai dim ond un ymweliad sydd, am dair awr. Mae'r cymhwyster yn para tair blynedd ac mae angen ei adnewyddu er mwyn ei gadw neu i gael gradd wahanol. Wedi ei roi, ni ellir tynnu'r cymhwyster yn ôl o fewn y tair blynedd nesaf.

Ewch i www.reqm.org i weld pa ysgolion sydd wedi dilyn a chyflawni'r REQM.

Mae ymchwil yn cael ei wneud i weld pam fod ysgolion yn gwneud cais, neu beidio, i gael yr REQM.

Dim ond dwy ysgol yng Nghymru sy'n dal y dyfarniad ar hyn o bryd. Ni wyddys faint o ysgolion a fu'n dal yr REQM yng Nghymru o'r blaen. Ym Mhrydain i gyd dim ond 450 o ysgolion sydd wedi gwneud cais.

£450 yw'r ffi arferol, er bod grantiau ar gael mewn rhai achosion.

Awgrymwyd rhai rhesymau pam nad oes cymaint o ddiddordeb wedi bod, yn cynnwys y gost, cyfle, neb ar gael yn yr ysgol i ymgymryd ag ef, a diffyg ymwybyddiaeth am y Marc Ansawdd.

Nododd MP fod ysgol yn Sir Gaerfyrddin newydd dderbyn y Marc Ansawdd a'i bod wedi'i gael yn brofiad gwerthfawr a chadarnhaol.

Dywedodd LJ y byddai hi'n hyrwyddo'r REQM yn ardal Wrecsam.

Diolchodd EE i Linda am y cyflwyniad ac am fod yn barod i ddod i CCYSAGauC i gyflwyno'r pwnc hwn.

## 7. Cyflwyniad CCYSAGauC: Liz Counsell – Adolygiad Estyn o AG yn CA2 a CA3

Eglurodd Liz fod yr adolygiad hwn yn rhan o'r gwaith y mae Estyn yn ei wneud bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru. Roedd yr adolygiad yn ymdrin â safonau, darpariaeth ac arweiniad mewn AG yn CA2 a CA3 mewn ysgolion a gynhelir. Bu pedwar arolygydd yn ymweld ag un ar hugain o ysgolion er mwyn creu 'adroddiad cyflwr y genedl'. Dewiswyd croestoriad o ysgolion er mwyn cael ystod mor eang â phosibl o dystiolaeth gan ddeuddeg ysgol gynradd a naw ysgol uwchradd. Yn ogystal, holwyd deuddeg o ysgolion ar y ffôn. Ffynhonnell dystiolaeth ychwanegol oedd y sylw thematig ar AG yn ystod arolygiadau ysgolion yn gyffredinol. Dim ond yr ysgolion y defnyddiwyd eu tystiolaeth yn yr adroddiad sy'n cael eu henwi yn hytrach na phob ysgol oedd wedi cael adolygiad thematig. Roedd yr ymatebion a anfonwyd gan GYSAGau i'r holiaduron a anfonwyd i gadeiryddion CYSAGau o gymorth hefyd.

Rhoddodd Liz drosolwg o'r adroddiad drwy gyflwyniad powerpoint. Gellir cael manylion y canfyddiadau yn yr adroddiad a gyhoeddwyd.

Nododd VT fod CCYSAGauC wedi gofyn am yr adolygiad ac roedd yn falch ei fod wedi digwydd.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith fod angen DPP ac mae hyn yn dystiolaeth i fynd i'r gweinidog.

Cytunodd Liz â VT y dylai tudalen 2 o'r ddogfen, yn hytrach na'r gosodiad presennol 'Nid oes gofyniad i ysgolion lunio barnau ar berfformiad disgyblion ar ddiwedd cam allweddol 2 na 3 mewn addysg grefyddol' ddarllen 'nid oes gofyniad cenedlaethol...' gan fod gan rai ALlau ofyniad o'r fath o fewn eu Maes Llafur Cytûn.

Teimlai'r aelodau fod angen cael arbenigwyr wedi'u hyfforddi i ddysgu'r pwnc er mwyn cael y safonau uchaf o ddarpariaeth.

Dywedodd GV ei bod yn falch o glywed fod ysgolion yn gwerthfawrogi rhestr o leoedd o addoliad y gellir ymweld â nhw ond roedd yn gochel rhag defnyddio'r ymadrodd 'wedi'u cymeradwyo' fel y defnyddir yn yr adroddiad. Dywedodd nad yw rhestr De Ddwyrain Cymru o leoedd o addoliad wedi'i 'gymeradwyo'. Awgrymodd Liz mai dyma'r gair a ddefnyddiwyd gan yr ymarferwyr wrth gyfeirio at y rhestr.

Dywedodd LC fod rhai athrawon wedi mynegi eu barn na fyddai rhieni'n hapus i'w plant ymweld â lleoedd o addoliad ond canfyddiad oedd hyn, nid oedd tystiolaeth ohono drwy ofyn i rieni. Awgrymodd GV y byddai'r ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar, y Canllaw ar Reoli'r Hawl i Dynnu'n Ôl o AG, yn offeryn defnyddiol i athrawon sy'n ystyried trefnu ymweliadau â lleoedd o addoliad. Cytunodd LC y byddai'n beth da tynnu sylw at y ddogfen hon.

Diolchodd EE i Liz am ei chyflwyniad gwerthfawr.

## 8. Manon Jones – Diweddariad ar y Cwricwlwm newydd

Adroddodd Manon y bydd gennym erbyn diwedd y mis (Gorffennaf) ddrafft cychwynnol o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Erbyn mis Medi bydd gennym gynigion penodol y gall CYSAGau eu trafod yn fanwl. Rhoddir yr un pwysau i AG ag i feysydd pwnc eraill o fewn MDaPh y Dyniaethau.

Bydd tri chynrychiolydd o'r ddau ar hugain o GYSAGau yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod yn y pedair ardal consortiwm. Rhoddwyd dyddiadau i glercod CYSAG a'u gwaith nhw fydd cydlynu ac enwebu eu cynrychiolwyr i fynd i'r cyfarfod, i gynnwys Cadeirydd y CYSAG ac ymarferwyr.

Diolchwyd i Manon am y diweddariad.

Torrwyd y cyfarfod i gael cinio ac i gynnal y Cyfarfod Blynyddol ar ôl cinio.

## 9. Cynnig ar gyfer rhannu dyletswyddau ysgrifenyddol

Amlinellodd y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd y sefyllfa bresennol o ran y dyletswyddau ysgrifenyddol. Cydnabuwyd fod gweinyddu CCYSAGauC yn gofyn am o leiaf 2.5 diwrnod yr wythnos.

Roedd PW wedi dweud wrth y Pwyllgor Gwaith na all hi gyflawni rôl yr ysgrifennydd mwyach fel y mae gan ei fod yn cymryd gormod o amser i'w wneud am gydnabyddiaeth yn unig.

Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith i GV, LJ a PW lunio papur i amlinellu sut y gallwn reoli'r sefyllfa. Roedd y papur wedi cael ei rannu gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith iddyn nhw ei ystyried.

Mae’r papur a gynhyrchwyd gan y tasglu yn awgrymu fod naill ai angen i CCYSAGauC gyflogi rhywun am 2.5 diwrnod yr wythnos neu rannu gwaith yr ysgrifennydd i wahanol swyddogaethau fel y nodwyd yn benodol yn y papur.

Roedd PW wedi cytuno i gymryd rôl newydd Cydlynydd yr Ysgrifenyddiaeth ac roedd GCA wedi cytuno i roi cefnogaeth iddi pan fydd yn ymgymryd â’i swydd newydd.

Cynigiodd RT ein bod yn mynd ar ôl y syniad o rannau swyddogaethau’r ysgrifennydd gan na fyddai CCYSAGauC mewn sefyllfa i dalu am rywun i wneud dyletswyddau ysgrifenyddol llawn am 2.5 diwrnod yr wythnos. Awgrymodd GV efallai y byddai’n rhaid i CCYSAGauC fynd yn ‘gyflogwr’ pe bai’n cyflogi rhywun am 2.5 diwrnod a byddai hynny’n golygu talu treth, pensiwn a thalu amser gwyliau.

Cadarnhaodd y trysorydd na allai CCYSAGauC fforddio i dalu am swydd 2.5 diwrnod na rheoli cyflogaeth.

Eiliodd VT y cynnig gan RT ac roedd yr aelodau i gyd yn gytûn. Pwysleisiodd GV eto fod brys i ddatrys y sefyllfa. I ddechrau byddai angen trafod gyda’r Pwyllgor Gwaith pa rai o’r swyddogaethau newydd y gallent eu cyflawni ac yna gofyn i aelodau eraill am eu cefnogaeth i ymgymryd â’r swyddogaethau oedd ar ôl.

**Cytunodd EE i drafod hyn ymhellach gyda’r Pwyllgor Gwaith.**

## 10. Diweddariadau:

Cynigiodd PYCAG fod CCYSAGauC yn cynnig cynhadledd i athrawon yn haf 2019. Cytunwyd y dylai CCYSAGauC gefnogi’r cynllun hwn.

**PYCAG i ystyried hyn ymhellach ac adrodd yn ôl i CCYSAGauC.**

Cynigiodd PYCAG y dylai Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC edrych ar adroddiad terfynol CoRE i Loegr. Cynigiodd LJ ar ran PYCAG fod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried llunio hawl cenedlaethol i AG yng Nghymru. Cafwyd cefnogaeth lawn gan aelodau CCYSAGauC i’r Pwyllgor Gwaith weithredu ar hyn. Cadarnhaodd RL y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei lansio ar 12 Medi gyda’r posibilrwydd o ‘lansiad ysgafn’ ar 9 Medi.

**Cytunwyd y bydd y Pwyllgor Gwaith yn rhoi hwn ar agenda’u cyfarfod nesaf.**

## 11. Adroddiad o’r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018

Ni chyflwynwyd.

## 12. Dangos a dweud

Dim

## 13. Gohebiaeth

Awgrymodd PW y dylai CCYSAGauC gael ei chyfrif e-bost ei hun i weinyddu a chytunodd yr aelodau. **PW i fynd ar ôl hyn.**

Mae David Hampshire wedi gofyn am gysylltiad â’r Rhwydwaith Rhyng-Ffydd. Nodwyd y dylid cydnabod Rhwydwaith Rhyng-Ffydd Cymru hefyd. Mae cyfarfod nesaf y Rhwydwaith hwn ar 16 Gorffennaf 2018.

Dywedodd CYSAG Abertawe mai Jennifer Harding-Richards yw ei ymgynghorydd proffesiynol newydd i CYSAG.

Cyngor Addysg Grefyddol – Rhoddodd Rudi Lockhart ddiweddariad ar eu cysylltiadau â gwleidyddion.

Roedd athro o Dorfaen wedi holi pa DPP sy’n cael ei ddarparu – GV wedi ateb ar ran CCYSAGauC.

## 14. Unrhyw Fater Arall

Dim.

## 15. Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Hydref 2019 –Bro Morgannwg 20 Tachwedd, 2018 yn Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr.

Gwanwyn 2019 – Caerdydd (dyddiad i’w gadarnhau)

Haf 2019 – Conwy (dyddiad i’w gadarnhau)

**Cynigiwyd a chytunwyd y byddai o gymorth pe bai’r dyddiadau’n cael eu pennu flwyddyn ymlaen llaw yn y dyfodol.**

Diolchodd EE i bawb a oedd wedi cefnogi’r cyfarfod:

Y Pennaeth, Meinir Roberts a disgyblion Ysgol y Graig am y perfformiad cerddorol

Eira Parry – cyfieithu

Enid Christie – gweinyddu ar ran Ynys Môn

Debra Griffiths – Clerc i’r CYSAG

**Cyfarfod Cymdeithas CYSAG au Cymru,**
**yn Oriel Ynys Môn, Rhosmeirch, Ynys Môn, LL77 7TQ**
**Dydd Gwener, 6 Gorffennaf 2018**
**(10.30 – 12.30 / *2.30 – 3.00p.m.)*)**

***Wales Association of SACREs meeting, at the Oriel, Llangefni, Rhosmeirch, Anglesey, LL77 7TQ***
***Friday, 6 July 2018***
***(10.30 – 12.30 / 2.30 – 3.00p.m.)***

**Attendance**

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Chris Thomas<br>Gwilym Jones<br>Euros Wyn Jones<br>Dylan Rees<br>Rheinallt Thomas<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward J. Evans (EE)<br>Vicky Thomas (VT)<br>Philip Manghan (PM)<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>Vicky Thomas (VT)<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Gill Vaisey (GV)<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Mary Parry (MP)<br><br>**Ceredigion**<br>Lyndon Lloyd MBE (LL)<br><br>**Conwy**<br>Nicholas Richter<br>Roger Boon<br>Ifor G Efans<br><br>**Sir Ddinbych / *Denbighshire*** | **Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Rosalind Williams<br><br>**Gwynedd**<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Paula Webber (PW)<br>Mark Prevett (MkP)<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>**Sir**<br>Louise Brown (LB)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot /*Neath and Port Talbot***<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Vicky Thomas (VT)<br>Sally Northcott (SN)<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br>Huw M George (HG)<br>Mary Parry (MP)<br><br>**Powys**<br>John Mitson (JM)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Paula Webber (PW)<br>Mathew Maidment (MM) | **Abertawe / *Swansea***<br>Vicky Thomas (VT)<br><br>**Torfaen**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Paula Webber (PW)<br>Dafydd Trehearn (DT)<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Libby Jones (LJ)<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Rudolf Elliot Lockhart, REC<br>Michelle Gosney, Estyn<br>Tudor Thomas, MAGC<br><br>**Cyflwynwyr/*Presenters***<br>Manon Jones (MJ)<br>Liz Counsel<br>Linda Rudge |

**Minutes of the meeting**

## 1. Introduction and welcome

Prior to the meeting members enjoyed a choir performance by pupils from Ysgol Y Graig.

Dylan Rees, Chairman of the Isle of Anglesey County Council for 2018/19 and Chair of Anglesey SACRE welcomed members to Anglesey and in particular to Oriel.

He referred to the current challenging times in relation to the new curriculum, but in particular locally with the loss of the Anglesey SACRE support officer Gareth Jones and the loss of the invaluable support and expertise of the challenge adviser, Bethan James who had recently been removed from the SACRE by the consortium. Heartfelt thanks were expressed to Bethan for the fantastic work that she has done in providing what had been referred to as a 'Rolls Royce' service. Her sudden withdrawal from the SACRE committee had left Anglesey SACRE not knowing how they are to move forward.

DR talked about the importance of peace between nations which comes from individuals having peace between themselves and peace in their hearts. He suggested that good RE helps produce peaceful attitudes in their hearts of pupils.

EE thanked DR for his warm welcome and reflections.

EE also noted that Phil Lord has also been pulled out of his role as professional officer to SACREs and Vicky Thomas in the south is retiring.

A huge vote of thanks to all three was offered for all that they have done over the many years of service.

A member from Anglesey asked for us to agenda the item of non-provision of professional advisers SACREs. GV advised that WASACRE has already written to all LA directors and SACRE clerks in relation to this matter and EE reported that several responses had already been received. It was noted that Paula Webber will be taking up a full time post with the EAS consortium who have shown a commitment to providing professional support to all SACREs within that consortium. LB expressed her opinion that each LA should be responsible for appointing their own adviser to SACRE.

## 2. Quiet reflection

EE talked about feelings of being self-important and that people feel they are indispensable when this is in fact not the case.

## 3. Apologies

Apologies were received from Tania ap Siôn, Sue Cave, Lynda Maddock, Helen Gibbon, Meinir Loader, Alison Lewis, Christine Abbas, Rachel Samuel, Andrew Pearce, Huw James, John Taylor, Alwen Roberts, Kathy Riddick, Huw Stephens and Marilyn Frazer.

## 4. Minutes of meeting held in Swansea Friday, 9th March, 2018

The minutes were accepted as a true record of the meeting other than a typing error under the Caerphilly attendance which should read Eryl Williams,

## 5. Matters arising

Correspondence had been received from Kirsty Williams in response to the letter written by WASACRE asking for clarification on the position of Humanist representation on Committee A of a SACRE. EE read the response which confirms the Minister’s position in relation to this area. SACREs have already received copies of the letter for their attention, EE has thanked KW for the response.

EE had also taken the opportunity to refer KW to the CoRE in England document to support her review of 10/94.

Carmarthenshire SACRE asked to raise the issue of communication to SACREs which is mostly in English when it is in the form of email. It was noted that in accordance with the constitution communication should always be bilingual. **EE agreed that we need to ensure that all emails are translated before being sent.**

Members raised their concerns about the lack of support for the provision of RE in relation to CPD, the current GCSE which does not provide a suitable vehicle for compulsory RE, the lack of professional support to some SACREs, and inadequate funding for SACREs.

VT suggested the reinstatement of the annual meeting with the minister would be helpful as a vehicle for raising the concerns raised by members. It was noted that the minister will ask for evidence to support any requests or concerns. It would be important to have teacher representatives at this meeting. **It was agreed that this matter would be referred to the Exec for their consideration.**

It was noted that no representative from WJEC attends either NAPfRE or WASACRE meetings and this is a loss. **LJ agreed to approach Lynda Maddock regarding this matter.**

## 6. REQM: Linda Rudge

Linda outlined the REQM and explained that it was developed in partnership with colleagues in Wales in 2014 – 2015. Mary Myatt and Jane Brooke were the original authors of the REQM. The REQM has a version for Wales which is also translated to Welsh.

REQM is an accreditation process and recognises and celebrates good practice in schools. Currently there is a review of the REQM and it is recognised that there is a need to work closely together with WASACRE on this throughout the process.

SMSC QM was launched in September 2017 and some may see this as a threat to REQM. However, unlike some other QMs all materials for the REQM such as the criteria are free to access regardless of whether a school is going to take up the assessment.

An assessor visits the school to confirm their judgement of Bronze, Silver or Gold. Linda referred to it as a 'light touch' process as there is only one visit for three hours. The qualification lasts for three years and then there is a need to renew in order to keep the qualification or achieve a different grade. Once awarded the qualification cannot be taken back within the following three years.

Visit www.reqm.org to note which schools have accessed and achieved the REQM.

Research is currently underway to check why schools are or are not applying for the REQM.

In Wales only two schools currently hold the awards. It is not known how many schools had previously held the REQM in Wales. Only 450 schools in total have applied across the whole country.

£450 is the usual fee, although grants are available in some cases.

Reasons it may not have been taken up so widely are suggested as cost, opportunity, no one in school to take it forward, and lack of awareness of the QM.

MP noted that a school in Carmarthenshire has recently received the REQM and found it a valuable and positive experience.

LJ noted that she would be now promoting the REQM in Wrexham area.

EE thanked Linda for the presentation and for her willingness to attend WASACRE to present on this matter.

## 7. WASACRE presentation: Liz Counsell – Estyn Review of RE at KS2 and KS3

Liz explained that this review was part of the work that Estyn do every year for WG. The review covered standards, provision and leadership at KS2 and KS3 in RE in maintained schools. Four inspectors visited twenty-one schools to create a 'state of the nation report'. A cross section of schools were chosen to get as broad a range as possible of evidence from twelve primary and nine secondary schools. Additionally, twelve schools were interviewed by telephone. A further additional source of evidence was the RE thematic focus during general inspections of schools. The report only names the schools whose evidence was used in the report rather than all schools that had received a thematic review. SACREs' submitted responses to the questionnaire sent to chairs of SACREs were also helpful.

Liz gave an overview of the report via a powerpoint presentation. Details of the findings can be found in the actual published report.

VT noted that WASACRE had asked for the review and was pleased that this had taken place.

The report highlights that CPD is needed and this is evidence to take to the minister.

Liz agreed with VT that on page 2 of the document, rather than the current statement ‘There is no requirement for schools to make judgements on pupils’ performance at the end of key stage 2 or 3 in religious education’ this should read ‘no national requirement….’ as some LAs do have such a requirement within their Agreed Syllabus.

Members felt that there is a need to have trained specialists teaching the subject in order to achieve highest standards of provision.

GV stated she was pleased to hear that schools were appreciative of a list of places of worship that can be visited but was wary of using the word ‘approved’ as was used in the report. She advised that the SE Wales list of places to visit are not ‘approved’. Liz suggested that this is the word that practitioners had used when referring to the list.

LC stated that some teachers had expressed their view that parents would not support their children visiting places of worship when in fact this was a perception and not evidenced by asking parents. GV suggested that the recently published Guidance on Managing the Right of Withdrawal from RE document was a useful tool for teachers in considering arranging visits to places of worship. LC agreed that it would be helpful if this document was signposted.

EE thanked Liz for her valuable presentation.

## 8. Manon Jones – New curriculum update

Manon reported that by the end of the month (July) we will have an initial draft of the Humanities AoLE. By September we will have specific proposals that SACREs can discuss in detail. There will be equal weight given to RE as to other subject areas within the Humanities AoLE.

Three representatives from each of the twenty-two SACREs will be invited to attend a meeting in the four consortia areas. Dates have been given to the SACRE clerks and it is for them to co-ordinate and nominate their representatives to attend the meeting to include the Chair of SACRE and practitioners.

Manon was thanked for the update.

The meeting was adjourned for lunch and for the AGM following lunch.

## 9. Proposal for division of secretarial duties

The Chair and Vice Chair outlined the current situation with the secretarial duties. It has been recognised that the administration of WASACRE requires a minimum of 2.5 days per week.

PW had advised the Exec that she can no longer fulfil the full role of secretary as it stands as the role is too time consuming to undertake on an honorarium basis.

GV, LJ and PW had been asked by the Executive committee to draw up a paper outlining a proposal on how we might manage the situation. The paper had been shared with members of the Exec committee for their consideration.

The paper produced by the task group suggests that either WASACRE needs to employ someone for 2.5 days per week or divide the work of the secretary into different roles as had been specifically identified in the paper.

PW had agreed to take on the newly devised Co-ordinator Secretary role and EAS had agreed to support her in this when she takes up her new post.

RT proposed that we pursue the division of the role of secretary as WASACRE would not be in a position to afford a person to carry out full secretarial duties for 2.5 days per week. GV suggested that WASACRE may need to become an 'employer' if it were to take on someone for 2.5 days and this would involve PAYE, enrolling the employee in a pension plan and paying holiday time.

The treasurer confirmed that WASACRE could not financially afford a 2.5 day position or manage employment.

VT supported the proposal by RT and members agreed. GV reiterated the urgency of the situation and the need to firstly look to the Exec to establish which of the new roles they could fulfil and then to other members for their support in taking on outstanding roles.

**EE agreed to discuss this further with the Exec committee.**

**10. Up-dates:**

NAPfRE proposed that WASACRE offer a conference for teachers in summer 2019. It was agreed that WASACRE supports this initiative.

**NAPfRE to give this further consideration and report back to WASACRE.**

NAPfRE proposed that the WASACRE Exec look at the final CoRE report for England. LJ on behalf of NAPfRE proposed that the Exec consider drawing up a national entitlement for RE in Wales. Full support was received from the WASACRE members for the Exec to go ahead with this. RL confirmed that the final report will be launched on 12th September with possibly a 'soft launch' on 9th September.

**Agreed that the Exec will agenda this for their next meeting.**

**11. Report from the Executive Committee held on 15 May 2018**

Not covered.

**12. Show and tell**

None

## 13. Correspondence

PW suggested that WASACRE has its own email account for administration and members agreed. **PW to pursue this.**

David Hampshire has asked for involvement with the Inter- Faith Network. It was noted that a Wales Inter-faith Network also should be acknowledged. Wales Inter-Faith Network's next meeting is on 16th July, 2018

Swansea SACRE advised that Jennifer Harding-Richards is their new professional adviser to SACRE.

REC – Rudi Lockhart gave an update on their links with politicians.

A teacher from Torfaen had enquired about what CPD is being provided - GV responded on behalf of WASACRE.

## 14. A.O.B.

None taken.

## 15. Date for next meeting:

Autumn 2019 –Vale of Glamorgan 20th November, 2018 in Llantwit Major Comprehensive School.

Spring 2019 – Cardiff (date tbc)

Summer 2019 – Conwy (date tbc)

**It was proposed and agreed that it would be helpful if dates are set a year in advance in future.**

EE expressed thanks to all those who had supported the meeting:

Head teacher, Meinir Roberts and pupils of Ysgol Y Graig.for the musical performance

Eira Parry – translation

Enid Christie – Anglesey administration

Debra Griffiths – Clerk to SACRE